

Rheoliadau Newydd Cyflenwadau Dŵr Preifat

– beth y maent yn ei olygu i berchnogion a defnyddwyr?

Beth yw cyflenwadau dŵr preifat ac ydy'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i mi?

Cyflenwad dŵr nad yw'n dod o gyflenwad dŵr cyhoeddus (sef oddi wrth gwmni dŵr oni bai ei fod yn cael ei gyflenwi wedyn gan rywun arall¹) yw cyflenwad dŵr preifat. Gall cyflenwadau dŵr preifat ddeillio o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys ffynhonnau, pistylloedd, tyllau turio a nentydd.

Cafodd rheoliadau ar gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru a Lloegr eu cyflwyno ym 1991, a'u disodli gan Rheoliadau newydd a gyflwynwyd yn gynnar yn 2010. Mae'r Rheoliadau newydd yn berthnasol i bawb sy'n berchen ar gyflenwad dŵr preifat, neu sy'n defnyddio cyflenwad o'r fath. Cafodd y Rheoliadau newydd eu cyflwyno i sicrhau bod dŵr o gyflenwadau preifat yn iach, er mwyn sicrhau nad yw pobl sy'n yfed dŵr neu sy'n cymryd bwyd neu ddiodydd sy'n deillio o gyflenwadau preifat yn peryglu eu hiechyd.

Diben y daflen wybodaeth hon yw helpu'r rheini â chyflenwad dŵr preifat i ddeall sut y bydd y rheoliadau yn effeithio arnynt.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat sy'n cael eu defnyddio at ddibenion domestig (fel yfed, coginio a golchi) mewn eiddo domestig ac eiddo masnachol.

Beth y mae hyn yn ei olygu i mi?

Pan ddefnyddir cyflenwad dŵr preifat:

- ar gyfer mwy nag un tŷ
- at ddibenion masnachol mewn eiddo sy'n cynnwys busnesau bwyd, llety Gwely a Brecwast, ffermydd llaeth, llety gwyliau a gweithleoedd (lle'r ydych yn cyflogi pobl eraill)
- mewn adeilad cyhoeddus

bydd gweithiwr proffesiynol o'ch awdurdod lleol yn ymweld â chi i archwilio'r cyflenwad a chymryd samplau o'r dŵr, fel arfer o'r tap yn y gegin. Gallant godi tâl am hyn.

Os yr unig eiddo sy'n cael dŵr o darddiad penodol yw'r tŷ lle'r ydych chi a'ch teulu yn byw, a'ch teulu chi yn unig sy'n yfed y dŵr, ni fydd yr awdurdod lleol yn cymryd sampl oni bai eich bod yn gofyn iddynt wneud hynny. Gallant godi tâl am y gwasanaeth hwn. Os ydych yn denant sy'n defnyddio cyflenwad dŵr preifat, gallwch hefyd ofyn i'ch awdurdod lleol archwilio eich cyflenwad os ydych chi'n amau bod yna broblem.

Pa fath o bethau a allai effeithio ar ansawdd y dŵr?

Hyd yn oed os yw dŵr yn edrych yn glir, gall dŵr sydd heb ei drin gynnwys micro-organebau (o wastraff anifeiliaid neu garthffosiaeth ddydol) neu gallai fod wedi'i halogi gan gemegion na fydd modd eu canfod o bosibl drwy flasau neu arogl.

Pa ddrwg allai dŵr sydd wedi'i halogi ei wneud?

Mae presenoldeb rhai micro-organebau, fel coliformau, yn dynodi ei bod hi'n bosibl bod dŵr wedi'i halogi. Fodd bynnag, mae rhai eraill, fel *Cryptosporidium*, *Giardia*, *Campylobacter* ac *E.coli O157* yn gallu achosi i bobl chwydu a dioddef o ddolur rhydd neu, mewn rhai achosion, salwch mwy difrifol.

Mae effaith cemegion yn dibynnu ar y math o gemegyn sy'n bresennol, a faint ohono. Mae'n gyffredin i blwm achosi problemau, gan fod plwm o bibellau yn gallu treiddio i'r cyflenwad dŵr, ac yn gallu amharu ar ddatblygiad plant. Mae plant â lefelau uwch o blwm yn eu cyrff yn dueddol o gael anawsterau dysgu ac ymddygiad. Ceir mwy o gyngor dros y dudalen ar sut i adnabod pibellau plwm a lleihau'r perygl hwn.

Pam y dylem ni boeni am ein dŵr?...Eich sylwadau chi

Rwyf i wedi bod yn ei yfed ers blynnyddoedd ac nid yw wedi gwneud unrhyw ddrwg i mi...

Nid yw rhai unigolion yn cael eu heffeithio gymaint ag eraill. Yn ôl astudiaethau, mae plant sy'n iau na 10 mlwydd oed, sy'n byw mewn cartrefi â chyflenwad dŵr preifat, bron i bedair gwaith yn fwy tebygol o ddiodydd o ddolur rhydd na phlant eraill.

¹ I weld taflen ar wahân ar Reol 8 ar gyflenwadau dŵr cyhoeddus(a adnabyddir hefyd fel Systemau Dosbarthu Preifat) ewch i www.dwi.gov.uk.

Rwyf newydd glywed efallai bod fy nghyflenwad dŵr yn cynnwys plwm oherwydd bod gen i bibellau plwm. Holais i'r doctor – dywedodd hi y gall ychydig o blwm o'r bibell dreiddio i'r cyflenwad dŵr o bryd i'w gilydd, gallai hyn effeithio ar ddatblygiad ymennydd fy mabi.

Gall rhai mathau o ddŵr, yn arbennig dŵr meddal (o gyflenwad dŵr cyhoeddus neu breifat) doddi plwm ym mhibellau eich cartref. Mae'n bwysig cyfyngu i'r eithaf ar faint o blwm y mae babanod a phlant ifanc yn dod i gysylltiad ag ef, a dylech gymryd camau i osgoi lefelau uchel o blwm pan ydych yn feichiog a chyn bod eich plentyn yn 6 mlwydd oed. Ffordd hawdd o leihau'r risg yw gadael i ddŵr sydd wedi bod yn sefyll mewn pibellau am gyfnod hir i lifo, er enghraifft drwy redeg y tap cyn ichi gymryd dŵr i'w yfed.

Pwy allai gael ei effeithio?

Mae gennych chi, eich teulu ac ymwelwyr i'ch cartref neu eich busnes hawl i ddisgwyl cael dŵr yfed diogel a glân. Mae llawer o gyflenwadau dŵr preifat yn bodloni gofynion rheoliadol Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, gallai sawl grŵp fod mewn perygl os byddant yn yfed dŵr o gyflenwad preifat sydd wedi'i halogi yn ficrobiolegol, fel ymwelwyr a gweithwyr sydd fel arfer yn yfed dŵr o'r prif gyflenwad yn eu cartrefi; plant; pobl hŷn a phobl â system imiwneidd gwan. Os ydych chi'n amau bod eich cyflenwad dŵr wedi eich gwneud chi neu eich ymwelwyr yn sâl, cysylltwch â'ch awdurdod lleol.

Beth y gall yr awdurdod lleol ei wneud i helpu?

Bydd staff yr awdurdod lleol yn gweithredu'r Rheoliadau, cynnal profion a rhoi'r canlyniadau i chi. Mae newidiadau i'r Rheoliadau yn golygu bod rhaid i'r staff hyn hefyd gynnal asesiad risg o'ch cyflenwad dŵr preifat, o'r tarddiad i'r tap. Bydd yr asesiad risg hwnnw yn edrych ar darddiad y cyflenwad a'r ardal gyfagos i weld a oes perygl i'r cyflenwad gael ei halogi. Mae hefyd yn cynnwys profion ar y tanciau cyflenwi, unrhyw systemau trin a'r pibellau. Mae'r asesiad risg yn dod o hyd i beryglon posibl a pheryglon gwirioneddol a allai effeithio ar iechyd y sawl sy'n yfed y dŵr, er mwyn i chi allu cymryd camau i sicrhau bod eich cyflenwad dŵr yn ddiogel i'w yfed. Os canfyddir nad yw dŵr yn ddiogel, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cyflenwad yn cael ei wella gan y perchnogion neu'r bobl sy'n rheoli'r cyflenwad.

Os yr unig eiddo sy'n derbyn dŵr o darddiad penodol yw'r tŷ lle'r ydych chi a'ch teulu yn byw, a'ch teulu chi yn unig sy'n yfed y dŵr, ni fydd yr awdurdod lleol yn cynnal asesiad risg oni bai eich bod yn gofyn iddynt wneud hynny. Gallant godi tâl am y gwasanaeth hwn.

Pa fath o welliannau fydd eu hangen o bosibl?

Efallai y bydd angen gwelliannau wrth y tarddiad ei hun, neu welliannau i'r pibellau neu'r ffitiadau yn eich cartref, e.e.:

- Trwsio'r system i atal dŵr brwnt, anifeiliaid neu eu gwastraff rhag treiddio i'r dŵr, ee drwy selio'r slabiau to ar siambrau casglu, codi ffensys o amgylch y tarddiad a chloddio ffos ddraenio i atal dŵr wyneb neu ddŵr sydd yn union o dan wyneb y ddaear rhag treiddio i'r cyflenwad
- Gosod system briodol i drin y dŵr er mwyn sicrhau bod yr ansawdd microbiolegol yn ddigonol a, lle bo eu hangen, gosod hidlyddion dŵr (i gael gwared ar haearn, nitradau, manganês, ayyb)
- Gosod pibellau eraill yn lle pibellau plwm yn yr eiddo drwyddo draw yw'r unig ffordd effeithiol o leihau'r lefelau o blwm yn eich cyflenwad dŵr yfed. Os yw'r bibell o dan y sinc yn eich cegin yn llwyd pŵl ac yn hawdd ei grafu, gan adael marciau sgleiniog, plwm ydyw mwy na thebyg. Sicrhewch nad oes unrhyw sodrau na ffitiadau plwm wedi'u defnyddio mewn gwaith plymio.



Beth y gallaf i ei wneud?

Sicrhewch eich bod yn gwybod o le y mae eich dŵr yn dod, a sut y mae'n cyrraedd eich tap. Gallai'r wybodaeth honno eich helpu i ddeall beth allai achosi problem.

- Gwiriwch pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cyflenwad. Cysylltwch â pherchnogion y tir lle y mae'r tarddiad, a thrafod eich cyflenwad gyda hwy, a lleoliad y tarddiad, tanc/iau a'r pibellau.
- Gwiriwch pwy sy'n gyfrifol am y system gyflenwi yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys offer trin dŵr, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

Ble y gallaf i gael cymorth?

Gan eich awdurdod lleol a'r Arolygaeth Dŵr Yfed ar www.dwi.gov.uk.

Cydnabyddiaeth: Canolfan Iechyd y Cyhoedd, Prifysgol John Moores, Lerpwl; United Utilities Water plc; a Phrifysgol East Anglia am eu hymchwil a ffotograffau a ddefnyddiwyd yn y daflen wybodaeth hon. Manylion yr Awdurdod Lleol (nodwch):